

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg



**Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Adroddiad Blynyddol 2021/22**

# Cyflwyniad

Croeso i ail adroddiad blynyddol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Swyddfa'r Comisiynydd) a Heddlu Gwent ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd (y Cynllun) 2020-24. Mae'n dangos rhai o'n gweithgareddau yn ystod 2021/22 sydd wedi cyfrannu at yr amcanion cydraddoldeb a amlinellir yn y Cynllun.

Mae deall ein data wedi bod yn sail i'n gweithgarwch yn ystod dwy flynedd gyntaf y Cynllun. Rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar ddata hil ac ethnigrwydd; fodd bynnag, rydym wedi ceisio gwella'r gwaith o gasglu a chofnodi data sy'n berthnasol i bob nodwedd warchoddedig. Rydym wedi parhau i weithio gyda Heddlu Gwent i ddatblygu fframwaith perfformiad a phhecyn data newydd. Mae hyn yn ein helpu ni i ddeall a chraffu yn well ar sut mae Heddlu Gwent yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throsedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2021-25.

Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid a chymunedau i roi sylw i broblemau a heriau cyson fel camddefnydd o bwerau'r heddlu, anghydraddoldeb hiliol a hiliaeth systemig, ac ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaeth heddlu. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol 2022/23, fel y cyfeirir ato yn y ddogfen hon.

Ar ôl llacio cyfyngiadau COVID-19, cawsom fynd yn ôl i ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r gymuned. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod ar grwydr ledled Gwent, yn codi ymwybyddiaeth o rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) mewn plismona a datblygu ein dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar ein cymunedau.

Rydym wedi parhau i groesawu swyddogion newydd i Heddlu Gwent yn rhan o Ymgyrch Uplift. Mae gwaith ymgysylltu â'n cymunedau amrywiol wedi cyfrannu at nifer y swyddogion newydd o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Rydym wedi chwarae rhan fawr yn natblygiad Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Bydd y cynllun hwn yn llywio gwaith pellach yng Ngwent i fynd i'r afael â hiliaeth a sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn sail i'n systemau, polisïau a'n harferion, gan helpu i gryfhau hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau plismona rydym yn eu darparu.

Yn ystod y flwyddyn cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei ddiweddarau i adlewyrchu blaenoriaethau newydd y Cynllun Heddlu a Throsedd. Nid oedd angen newid yr amcanion cydraddoldeb.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Swyddfa'r Comisiynydd a'r mentrau sy'n cael eu crybwyll yn yr adroddiad hwn ar ein gwefan [Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent | Gwent Police and Crime Commissioner \(pcc.police.uk\)](https://www.pcc.police.uk).

# Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed




**1,342**  
o  
droseddau  
casineb  
wedi'u  
cofnodi

## Troseddau casineb

Cynyddodd nifer yr achosion o droseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu i lefelau cyn y pandemig.

Mae gwaith ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid a digwyddiadau lleol a chenedlaethol wedi cyfrannu at y cynnydd hwn.

**55%** hil  
**20%** anabledd  
**19%** homoffobig  
**1%** crefydd  
**5%** transffobig



## Cod Ymarfer Dioddefwyr

Mae'r cynllun cydymffurfio peilot rhwng comisiynwyr yr heddlu a throsedd Gwent a De Cymru yn mesur perfformiad cyfiawnder troseddol yn erbyn 12 hawl y dioddefwr. Mae'r hap-sampl yn canolbwyntio ar gam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol difrifol, troseddau casineb a throseddau yn erbyn y person. Bydd y cynllun peilot yn cael ei gyflwyno ledled Cymru yn 2022/23 ac yn cael ei fonitro gan Fwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent (CJSB) a Thasglu Dioddefwyr a Thystion Cymru Gyfan.

## Safle newydd ar gyfer rhoi tystiolaeth o bell

Lansiwyd y safle ym mis Mawrth 2022 ac mae'n caniatáu i dystion agored i niwed a thystion sy'n teimlo dan fygythiad (menywod yn bennaf) roi tystiolaeth o bell i lys barn, gan leihau'r ofn, y straen a'r pryder sy'n aml yn gysylltiedig â rhoi tystiolaeth yn bersonol. Bydd CJSB Gwent, dan gadeiryddiaeth y Comisiynydd, yn monitro defnydd o'r safle.



## Codi ymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn

Tynnodd gweminar ar-lein ar gyfer gweithwyr rheng flaen proffesiynol, a gynhaliwyd gan y Comisiynydd, sylw at effaith ddinistriol cam-drin pobl hŷn. I nodi Diwrnod Ymwybyddiaeth Cam-drin Pobl Hŷn ym mis Mehefin, dysgodd y rhai a oedd yn bresennol am y mathau o gamdriniaeth a'r rhwystrau cymhleth mae pobl hŷn yn eu profi'n aml wrth geisio cymorth.

## SBOTOLAU AR...

### Y Tasglu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ar gyfer Cymru

Mae Tasglu VAWDASV ar gyfer plismona yng Nghymru'n cael ei gadeirio ar y cyd gan Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent, gyda'r prif nod o newid ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol yn cynnwys Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill, mae'r Tasglu hefyd yn ceisio gwella hyder y cyhoedd ym mhob gwas cyhoeddus.

### Dargyfeirio troseddwr benywaidd ac oedolion ifanc

Mae arfarniad annibynnol o'r Dull System Gyfan i Fenywod a'r gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 yn dangos bod y rhai sy'n gysylltiedig â nhw yn ymgysylltu mwy gyda'r system cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth eraill. Mae'r rhaglenni hyn hefyd yn cyfrannu at ddargyfeirio menywod a phobl ifanc rhag cyswllt gyda'r system cyfiawnder troseddol yn y dyfodol.

Dros  
**2000**

o atgyfeiriadau am gymorth ymyrraeth gynnar a chymorth dwys

# Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed

**2,761**

o ddiodefwyr wedi cael cymorth yn y 100 diwrnod cyntaf

Dros

**30,000**


o atgyfeiriadau diodefwyr wedi'u derbyn hyd at 31 Mawrth

## Uned Gofal Dioddefwyr newydd

Lansiwyd yr Uned Gofal Dioddefwyr ym mis Gorffennaf 2021 yn y ganolfan amlasiantaeth i ddiodefwyr, Connect Gwent (a ariennir gan Swyddfa'r Comisiynydd). Mae 19 swyddog gofal diodefwyr yn gweithredu fel pwynt cyswllt i ddiodefwyr o'r adeg y byddant yn riportio trosedd hyd at ddiwedd y broses cyfiawnder troseddol. Maent yn gweithio'n agos gyda swyddogion i sicrhau bod diodefwyr yn derbyn newyddion rheolaidd am yr ymchwiliad maent yn rhan ohono.

Mae'r swyddogion gofal diodefwyr wedi cael eu hyfforddi i asesu anghenion unigolyn diodefwyr a chynnig cymorth pwrpasol.

Gall hyn fod yn gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig neu fregusrwydd penodol. Mae'r Uned Gofal Dioddefwyr yn gweithio gydag asiantaethau partner i atgyfeirio diodefwyr ar gyfer mwy o gymorth os oes angen.



## Connect Gwent

Mae gwasanaethau eraill a gomisiynwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer diodefwyr yn cynnwys:

Gweithiwr  
Achosion Pobl  
Hŷn Age Cymru:

**100**

o ddiodefwyr  
wedi cael  
cymorth

Gwasanaeth Plant  
a Phobl Ifanc  
Umbrella Cymru:

**267**

o ddiodefwyr  
wedi cael cymorth

## Gwasanaethau VAWDASV

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn aelod o Fwrdd Rhanbarthol a Grŵp Comisiynu Strategol VAWDASV Gwent.

Mae'r Comisiynydd yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer gwasanaeth Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) ac Eiriolwr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA)

**£857,956**

wedi'i  
ddyfarnu i  
wasanaethau  
VAWDASV

## Ymyrraeth a Chymorth Iechyd Meddwl

Mae'r Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl yn gweithio yn yr Ystafell Rheoli Cyswllt a Galwadau ac mae'n parhau i fod yn gaffaeliad gwerthfawr i Heddlu Gwent a'n cymunedau, yn darparu cymorth ymyrraeth gynnar a helpu i atal anfon swyddogion heddlu allan yn ddiangen. Mae'r tîm wedi cyfrannu at ddatblygu'r arfer o adnabod a rhoi sylw i ddigwyddiadau'n ymwneud ag Anhwylder Ymddygiad Dwys.

Mae Ymarferydd Lles Iechyd Meddwl yn gweithio yn Connect Gwent hefyd, yn rhoi cyngor a chymorth i ddioddefwyr ag anghenion iechyd meddwl. Dywedodd y rhan fwyaf o unigolion eu bod yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well, bod ganddynt fwy o wybodaeth a'u bod wedi'u grymuso i weithredu o ganlyniad i'r cymorth maent wedi ei gael.

177

o  
ddioddefwyr  
wedi cael  
cymorth

## Prosiect Allgymorth BAWSO

Mae BAWSO yn rhoi cymorth i gymunedau ac unigolion Du ac Ethnig Leiafrifol sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth, trais a cham-fanteisio ac na fyddent o bosibl yn riportio eu profiadau wrth yr heddlu.

Dechreuodd y prosiect ar ddiwedd 2021 gyda chymorth a riannol gan Swyddfa'r Comisiynydd. Roedd y prosiect hefyd yn atgyfeirio pobl at gymorth allanol fel tai, gwasanaethau IDVA, iechyd neu wasanaethau cyfreithiol.

28

o fenywod wedi  
cael cymorth  
hyd yn hyn

## Panel Craffu ar Gyfreithlondeb

Cyfarfu Panel Craffu ar Gyfreithlondeb Swyddfa'r Comisiynydd, sy'n cynnwys aelodau'r Grŵp Cynghori Annibynnol, bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, i adolygu pwerau stopio a chwilio a defnyddio grym yr heddlu, gan ganolbwyntio ar anghydraddoldeb hiliol. Adolygwyd detholiad ar hap o fideos camera corff a chofnodion stopio a chwilio.

Rhodddwyd adborth i Heddlu Gwent ar ansawdd y rhesymau dros stopio a chwilio a defnyddiwyd yr adborth hwn i gefnogi gwelliant parhaus. Roedd themâu yn cynnwys diffyg manylion yn y sail dros stopio a chwilio, sail wan stopio oherwydd 'arogl canabis', a'r angen am fwy o gyfiawnhad ar gyfer y digwyddiad.

**48%**

ar sail  
gref

**38%**

ar sail  
gymedrol

**14%**

ar sail  
wan

Mae adroddiadau llawn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd, ynghyd â dogfen crynodeb o waith y Panel Craffu ar Gyfreithlondeb.

## Grŵp Cynghori Annibynnol

Rydym yn parhau i ymgysylltu a'r Grŵp Cynghori Annibynnol a chefnogi'r rhan mae'n ei chwarae o ran craffu annibynnol a herio.

Yn ogystal â'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb hirsefydlog, rydym wedi gweithio gyda Heddlu Gwent i adolygu prosesau craffu presennol a sefydlu rhai newydd, gan gynnwys troseddau casineb, y ddalfa, gwarediadau y tu allan i'r llys a gweithgareddau eraill a allai gael effaith anghymesur ar ein cymunedau amrywiol.



**6**

cais am  
gymorth gan  
heddluoedd  
eraill ynghylch  
craffu yn  
annibynnol ar  
stopio a  
chwilio.

## Dulliau Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn

Mae mwy o waith gyda Heddlu Gwent a phartneriaid wedi datblygu ein dulliau plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Bydd Strategaeth Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn yn cael ei chyhoeddi yn 2022/23 gyda'r nod o:

- Feithrin gwell cydberthnasau a chwalu rhwystrau rhwng Heddlu Gwent a phlant a phobl ifanc
- Atal plant a phobl ifanc rhag cael eu tynnu i mewn i droseddu a'r system cyfiawnder troseddol
- Gwella canlyniadau cyfiawnder troseddol i blant a phobl ifanc
- Gwella gwasanaethau i blant sydd wedi dioddef trosedd a'r rhai sydd wedi bod yn agored i gam-drin domestig.

## Cynllun Peilot - Grŵp Craffu Ieuentid

Gweithiodd Swyddfa'r Comisiynydd gyda Heddlu Gwent ac Ysgol John Frost i greu cynllun peilot ar gyfer Grŵp Craffu Ieuentid yn ystod 2021/22. Cymerodd naw gwirfoddolwr o flwyddyn 10 ac 11 ran. Rhodddwyd adborth ar sefyllfaoedd a welwyd ar gamerâu corff, gan gynnwys stopio a chwilio a defnyddio grym, fel gefynnu, yn ystod arést. Defnyddir hwn ochr yn ochr ag adborth y Panel Craffu ar Gyfreithlondeb i gefnogi prosesau gwella parhaus Heddlu Gwent.

Bydd y cynllun peilot yn cael ei adolygu yn barod ar gyfer blwyddyn ysgol 2022/23 a bydd yr hyn a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio i wella'r broses.

## **SBOTOLAU AR...**

### **Mynd i'r afael â Hiliaeth yn y maes Cyfiawnder Troseddol**

Mae CJSB Gwent yn cyfrannu at y Tasglu Cydraddoldeb Hil yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Bu'r aelodau'n rhan o ddatblygu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, gydag uwch swyddogion o Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent yn arwain grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a data'n ymwneud â hil.

Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei gyhoeddi yn hwyrach yn 2022. Bydd camau gweithredu a chanlyniadau priodol yn rhan o flaenoriaeth Cydraddoldeb Hil Cynllun Gweithredu CJSB Gwent ar gyfer 2022/23.

### **Panel Apeliadau Fetio**

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn aelod o'r Panel Apeliadau Fetio. Mae'r Panel yn adolygu pob achos lle mae ymgeiswyr â nodweddion gwarchoddedig cysylltiedig ag ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd ac ailbennu rhywedd wedi methu'r broses fetio. Mae'r Panel yn helpu i sicrhau tryloywder y prosesau a phenderfyniadau fetio. Mae adolygu'r rhesymau dros wrthod pobl â nodweddion gwarchoddedig yn rhywbeth ychwanegol mae'r Panel yn canolbwyntio arno, yn hytrach na'r prif bwrpas.

### **Adolygiad Annibynnol o Stopio a Chwilio**

Comisiynodd Heddlu Gwent adolygiad annibynnol o stopio a chwilio i hybu gwelliant parhaus ac i helpu i roi sylw i heriau parhaus sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb. Yn rhan o hyn, rhoddwyd ystyriaeth i swyddogaeth proses Panel Craffu ar Gyfreithlondeb Swyddfa'r Comisiynydd. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol am y cyfraniadau a wnaed, effeithiolrwydd y trefniadau a chanlyniadau'r gwaith craffu. Yn ogystal, roedd canfyddiadau'r adolygiad yn gyson â chanlyniadau sesiynau'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb.

### **Ymgysylltu â'r Trydydd Sector**

Trefnodd Swyddfa'r Comisiynydd ymateb cyfunol ar ran pedwar comisiynydd heddlu a throsedd a phedwar prif gwnstabl Cymru i adroddiad drafft Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) 'Black and Minority Ethnic Children and Young People in Wales after COVID-19: Themes emerging from the BME Children and Young People's Round Tables and EYST COVID Fora'.

Roedd yr ymateb yn amlinellu'r gweithgareddau a chamau gweithredu cyfunol a oedd yn cael eu cymryd ledled Cymru i roi sylw i'r themâu a nodwyd. Gwnaethom annog a chefnogi ymgysylltu parhaus rhwng plismona ac EYST hefyd i helpu i wella rhai o'r materion a godwyd.

## Trosglwyddo plant o ddalfa'r heddlu

Mae trosglwyddiadau'n cael eu monitro yn CJSB Gwent. Mae adroddiadau blynyddol yn rhoi golwg gyffredinol ar y gwaith craffu a'r arfer da rhwng Heddlu Gwent a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

**12**

o bobl ifanc  
dan 18 oed  
wedi eu cadw  
yn y ddalfa ar  
ôl cael eu  
cyhuddo

**4**

o bobl ifanc  
dan 18 oed  
wedi eu cadw  
yn y ddalfa yn  
lle llety diogel

## Anghydraddoldeb yn y Ddalfa

Gwnaethom weithio gyda Heddlu Gwent i sefydlu Panel Craffu ar Anghydraddoldeb yn y Ddalfa.

Mae'r Panel yn craffu ar bwerau'r heddlu fel noeth chwiliadau, defnydd o rym, a chadw pobl yn y ddalfa, yn benodol pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Caiff cyfreithlondeb y gweithredoedd hyn ei ystyried hefyd. Rhoddir adborth lle ceir cyfleoedd i wella ymarfer, goruchwyliaeth neu i ddysgu.



## Y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Rydym yn dal i gydgyssylltu cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd effeithiol. Mae gwirfoddolwyr y cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn gwirio lles pobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Maent yn gwirio cyflwr celloedd ac ardaloedd y ddalfa hefyd, ac yn adrodd ar unrhyw bryderon neu broblemau, neu'n eu huwchgyfeirio i gael eu datrys. Wrth i gyfyngiadau COVID lacio, ail ddechreuodd ymweliadau wyneb yn wyneb. Mae Fframwaith Perfformiad ar gyfer y cynllun yn cofnodi canlyniadau ymweliadau yn ystod y flwyddyn. Caiff adroddiadau a chofnodion eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd.

**8,990**

o bobl wedi eu  
cadw yn y  
ddalfa yn ystod  
2021/22

**123**

o'r rheini a  
gadwyd yn  
y ddalfa  
wedi gofyn  
am  
wasanaeth  
au  
cyfieithu

**180**

o'r rheini a  
gadwyd yn y  
ddalfa wedi cael  
eu cyfweld gan  
ymwelwyr  
annibynnol â  
dalfeydd trwy  
ymweliadau neu  
alwadau

Mae adborth ar y cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cadarnhau perfformiad da gan Heddlu Gwent trwy gydol y flwyddyn.



# Mynediad, Ymgysylltu a Chydlyniant

## Fframwaith Perfformiad

Rydym wedi parhau i weithio gyda Heddlu Gwent i ddatblygu Fframwaith Perfformiad effeithiol sy'n dangos perfformiad Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd. Wrth ddatblygu'r Fframwaith Perfformiad, rydym wedi ymgysylltu'n rheolaidd â'r Panel Heddlu a Throsedd sy'n dwyn y Comisiynydd i gyfrif, i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus ehangach.

Wrth ddatblygu'r Fframwaith, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ansawdd ac uniondeb data sefydliadol hefyd, gan gynnwys gwaith monitro amrywiaeth. Mae'r Fframwaith wedi cael ei ddefnyddio i lywio'r adroddiad hwn hefyd.

## Ymgysylltu ynghylch y Cynllun Heddlu a Throsedd

Er mwyn datblygu Cynllun yr Heddlu a Throsedd 2021-2025, gwnaethom ymgysylltu'n helaeth gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Derbyniwyd **1,892** ymateb. Roedd **14%** o'r ymatebion gan ddiodefwyr trosedd.

Mae'r gweithgarwch hwn yn helpu i sicrhau bod y Cynllun yn adlewyrchu barn amrywiol ein gwahanol gymunedau ac yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r Comisiynydd o'r hyn sydd o bwys i bobl Gwent, rhanddeiliaid allweddol, a'n partneriaid plismona.

<b>58%</b> wedi darparu gwybodaeth amrywiaeth	<b>10%</b> o'r ymatebion gan bobl ethnig leiafrifol	<b>14%</b> wedi datgan anabledd	<b>1.7%</b> o ymatebwyr yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol
			<b>1.8%</b> o ymatebwyr yn anneuaid

## Dogfennau Hygyrch

Rydym wedi cynnal adolygiad llawn o hygyrchedd, wedi'i gefnogi gan gynllun gweithredu, i sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyhoeddiadau rydym yn eu cynhyrchu yn hygyrch i'r cyhoedd, yn arbennig pobl â gwahanol anableddau. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys adroddiadau, cyhoeddiadau, a'n gwefan. Bydd y gwaith sy'n deillio o'r adolygiad yn cael ei gwblhau yn ystod 2022/23.



## Heddlu Bach

Mae'r rhaglen Heddlu Bach a ddechreuwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd yn mynd o nerth i nerth. Cynigir y rhaglen i bob plentyn oed ysgol gynradd yng Ngwent, gan gynnwys rhai gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae'n cynnwys aelodau ifanc cymuned Mosg Berea. Mae'r rhaglen yn ffordd hwyliog, ryngweithiol i blant ddysgu sgiliau newydd, magu hyder yn eu galluoedd a chwarae rhan weithredol yn eu cymuned. Mae'n meithrin ymddiriedaeth a hyder rhwng yr heddlu a phlant ac yn helpu i greu mwy o gydlyniant cymunedol yn y gymuned ehangach.

Mae dros **100** o ysgolion a **1,600** o blant 9 i 11 oed yn rhan o'r Heddlu Bach, gan gynnwys plant o'n cymunedau amrywiol.

## SBOTOLAU AR...

### Gweithio gyda Chymunedau

Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb, gwnaethom ymuno â grŵp cyfeillgarwch anabledd lleol, My Mates, i ymchwilio i ddealltwriaeth a phrofiadau pobl o droseddau casineb. Cyfrannodd y grŵp at weithdy gyda Swyddfa'r Comisiynydd a Mencap Cymru i gyd-gynhyrchu deunyddiau Hawdd eu Darllen i helpu pobl ag anableddau i ddeall yn well sut i riportio digwyddiadau troseddau casineb a cheisio cymorth.

Yn dilyn cyfarfod gyda Chomisiynydd Plant Cymru, Sally Holland, a'r Dirprwy Gomisiynydd, gwnaethom hwyluso gweithdy Mannau Diogel gyda disgyblion Roma o Ysgol Gynradd Maendy i nodi llefydd yn y gymuned lle roeddent yn teimlo'n ddiogel ac yn annïogel. Cafwyd cefnogaeth i'r gweithdai gan swyddogion Heddlu Gwent, a fu'n gwrando ar bryderon disgyblion ac yn tawelu meddwl lle'r oedd angen. Mae hyn yn rhan o'n gwaith ehangach i roi plant a phobl ifanc wrth wraidd penderfyniadau, a bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio wrth ddatblygu cynlluniau plismona lleol.

# Mynediad, Ymgysylltu a Chydlyniant

## Cofio a Dathlu

Ynghyd â Heddlu Gwent, partneriaid a'n cymunedau gwnaethom gofio a dathlu nifer o ddigwyddiadau allweddol, gan gynnwys:

- Diwrnod Stephen Lawrence
- Diwrnod Cofio'r Holocaust
- Diwrnod Rhuban Gwyn (cam-drin domestig)
- Cofio Srebrenica (dioddefwyr hil-laddiad)
- Mis Hanes LHDT+
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Diwrnod Rhyngwladol Menywod

## Hawl i Holi Ieuenctid

Cynhaliwyd ein pedwerydd Hawl i Holi Ieuenctid mewn partneriaeth â Fforwm Rhanbarthol Ieuenctid Gwent a rhoddodd gyfle i bobl ifanc ofyn cwestiynau i banel o bobl broffesiynol sy'n gwneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus. Ymysg y themâu roedd diogelwch menywod a merched, gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc a throseddau casineb yn ein cymunedau. Bydd sylwadau o'r sesiwn yn cael eu defnyddio i sbarduno gwelliannau yn y gwasana plismona rydym yn eu darparu.

## Galwadau ffôn cymunedol

Gwnaethom barhau i gymryd rhan yng ngalwadau ffôn cymunedol misol Heddlu Gwent, gan sicrhau cyswllt cyson â'r gymuned trwy gydol cyfyngiadau COVID a thu hwnt. Helpodd y galwadau ffôn cymunedol i roi cefnogaeth a sicrwydd i'n cymunedau Du ac Asiaidd trwy gydol y pandemig a bydd eu swyddogaeth yn ein prosesau ymgysylltu a chyfathrebu yn cael ei hadolygu yn ystod 2022/23.



Dros  
**60**  
o gyfranwyr  
o bob rhan  
o Went.

## Gweithio gyda phartneriaid

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cymryd rhan mewn amryw o fyrddau partneriaeth strategol sy'n cefnogi ein cymunedau, gan gynnwys:

- Byrddau Tensiynau a Chasineb Cymru Llywodraeth Cymru
- Tri Bwrdd Rheoli Lleol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yng Ngwent
- Bwrdd Rhanbarthol a Chomisiynu Strategol VAWDASV Gwent
- Grŵp Llywio Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru
- Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwent
- Gwent Mwy Diogel (diogelwch cymunedol)
- Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion

## Chwalu Rhwystrau

Rydym yn parhau i ariannu mentrau gyda'r nod o feithrin ymddiriedaeth a sicrhau cydberthnasau cadarnhaol gyda chymunedau, gan ddargyfeirio pobl oddi wrth drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys:

- Sesiynau pêl-droed wythnosol i ffoaduriaid ifanc yng Nghasnewydd (trwy gyfrwng The Gap Cymru a Dyfodol Cadarnhaol)
- Sesiwn bocsi i blant Roma ym Maendy (trwy gyfrwng Dyfodol Cadarnhaol)
- Gweithdai dawnys i blant a phobl ifanc yn Abertyleri (trwy gyfrwng Ffin Dance ac Off the Streets)
- Gweithdai Calan Gaeaf i blant a phobl ifanc yng Nghasnewydd (trwy gyfrwng Urban Circle)

Mae sesiynau'n helpu i godi ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll a chyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a phroblemau eraill sy'n

# Creu Gweithlu Cynrychioliadol a Hyrwyddo Tegwch

## Cynlluniau Cyflogwr

Rydym wedi ymroi i fod yn gyflogwr Chwarae Teg ac rydym wedi ennill gwobr arian. Mae'r cynllun yn annog arferion gweithio cynhwysol a datblygiad gweithwyr. Rydym yn parhau i ddatblygu ac ymgorffori canlyniadau ac argymhellion, gan ymgysylltu'n rheolaidd â staff i sicrhau eu bod yn rhan o'r gwaith cynllunio busnes a gwneud penderfyniadau.

Rydym wedi cadw ein statws Hyderus o ran Anabledd a byddwn yn parhau i weithio i ganfod cyfleoedd i wella yn y maes hwn.

## SBOTOLAU AR...

### Cynyddu Amrywiaeth yn y Gweithlu

Rydym yn dal i gefnogi Heddlu Gwent wrth iddo weithio i gael cynrychiolaeth ethnig leiafrifol o 5.1% yn y gweithlu.

Mae prosesau recriwtio yn dal ar y trywydd iawn ar ddiwedd ail flwyddyn Ymgyrch Uplift.

Byddwn yn ymgysylltu mwy â'r Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol

Penaethiaid yr Heddlu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd recriwtio a chadw ar gyfer swyddogion a staff.

Caiff data gweithlu Swyddfa'r Comisiynydd ei gyhoeddi ar ein gwefan ac rydym yn cydnabod diffyg amrywiaeth o fewn y sefydliad. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'n cymunedau, gan godi ymwybyddiaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau staff Swyddfa'r Comisiynydd ac unrhyw swyddi gwag.

Byddwn hefyd yn defnyddio gweithredu cadarnhaol i helpu i ddenu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol.

3.4%

o swyddogion Heddlu Gwent o gefndiroedd ethnig leiafrifol

1.3%

o staff yr heddlu o gefndiroedd ethnig leiafrifol

## Dod yn weithlu gwybodus

Rydym yn gweithio gyda Heddlu Gwent i sicrhau bod rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant effeithiol a chynaliadwy yn cael ei chynllunio a'i darparu i'r holl swyddogion a staff (gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd, lle y bo'n briodol). Ategir hyn gan waith hil Cyfiawnder Troseddol Cymru sy'n canolbwyntio ar addysg a hyfforddiant i ddatblygu gweithlu diwylliannol gymwys a gwybodus.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi ymroi i fod yn sefydliad sy'n dysgu ac mae'n buddsoddi bob blwyddyn ar gyfer datblygiad staff. Rydym hefyd yn defnyddio ein sesiynau 'Cwrdd i Ffwrdd' i gefnogi a datblygu ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Datblygu ein Hymrwymiad

Cynhaliodd Swyddfa'r Comisiynydd weithdy yn canolbwyntio ar amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chyfraniadau staff a'r tîm i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Cyfrannodd pob aelod o staff a defnyddiwyd eu sylwadau i lywio Cynllun Cyflawni Cydraddoldeb Swyddfa'r Comisiynydd. Adolygwyd y Cynllun Cyflawni ymhellach gan bob pennaeth maes busnes, gan sicrhau bod gweithgareddau sefydliadol yn cefnogi'r amcanion.

## Lles y Gweithlu

Mae Strategaeth Lles Blynnyddol yn amlinellu'r weledigaeth o ran lles ar gyfer yr holl swyddogion a staff. Caiff ei darparu trwy sesiynau 'Dysgu dros Ginio', ac amryw o ddiwyddiadau a chyfraniadau lles gan gynnwys menapos, iechyd meddwl, canserau mewn dynion a menywod, a materion ariannol.

Crëwyd Pecyn Cymorth Lles ac mae ar gael i gefnogi pobl yn y gwaith a thu allan i'r gwaith.

Mae Rhwydwaith Iechyd Dynion newydd, sy'n gysylltiedig â'r Rhwydweithiau Cefnogi Staff, yn codi ymwybyddiaeth o gyflyrau iechyd dynion, ac yn cynnig cefnogaeth.

Caiff sgrinio dyslecsia ei gynnal i bob gweithiwr newydd yn awr i ganfod a oes angen cymorth ychwanegol.

# Creu Gweithlu Cynrychioliadol a Hyrwyddo Tegwch

## Ymgyrch Dare to Share

Rhannodd cydweithwyr sy'n byw gydag anabledd, niwroamrywiaeth, a chyflyrau iechyd meddwl eu straeon yn rhan o'r ymgyrch Dare to Share newydd. Nod Dare to Share yw herio'r stigma sy'n gysylltiedig â chyflyrau o'r fath. Mae'n rhoi llwyfan i gydweithwyr siarad yn fwy agored am broblemau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r ymgyrch yn rhan o'n hymrwymiad ar y cyd â Heddlu Gwent i greu gweithle tosturiol sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniad pob unigolyn.

Lansiwyd Dare to Share yn ystod Mis Anabledd y DU.

## Pencadlys Newydd yr Heddlu

Dechreuodd staff symud i mewn i'r pencadlys newydd ym mis Ionawr.

Mae'r adeilad newydd yn weithle modern, hygyrch a chynaliadwy, ac mae'n cynnig cyfleusterau hygyrch sy'n niwtral o ran y rhywiau, gan gynnwys toiledau ac ystafelloedd newid ac ystafell fyfyr.



Mae trefniadau gweithio ystwyth hefyd yn cyfrannu at les staff trwy ganiatáu iddynt reoli amser yn fwy hyblyg.



## Rhwydweithiau Cefnogi Staff

Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd gyda Rhwydweithiau Cefnogi Staff Heddlu Gwent i sicrhau ein bod yn deall problemau penodol yn y gweithle. Defnyddir adborth i lywio ein trafodaethau gyda Heddlu Gwent ac unrhyw benderfyniadau cysylltiedig.

Mae aelodaeth o'r rhwydweithiau yn agored i staff Swyddfa'r Comisiynydd hefyd.

## Y Gymraeg

Rydym wedi ymroi i ddatblygu a darparu gwasanaeth plismona dwyieithog yng Ngwent. Mae Strategaeth y Gymraeg ar y Cyd Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent yn amlinellu ein hamcanion ar gyfer y Gymraeg. Rydym yn dal i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a orfodir ar y Comisiynydd wrth ddarparu ein gwasanaethau Cymraeg. Cyhoeddir Adroddiad Blynnyddol Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Swyddfa'r Comisiynydd bob mis Medi.

Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd ein cydymffurfiaeth â'r Safonau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Roedd yr adborth yn gadarnhaol a nodwyd bod ein prosesau llywodraethu yn effeithiol o ran cefnogi cydymffurfiaeth sefydliadol.

## Gwella Data'r Gweithlu

Yn rhan o'r ymgyrch 'Diogel i Ddweud', mae ansawdd data am nodweddion gwarchoddedig swyddogion a staff wedi gwella llawer.

Mae **6.1%** o swyddogion heddlu wedi datgan anabledd yn awr o gymharu â 2.2% yn 2020/21. Mae hwn yn welliant sylweddol sy'n dangos cyfansoddiad y gweithlu yn well. Bydd Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i annog a chefnogi swyddogion a staff i ddatgelu eu gwybodaeth bersonol er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o anghenion yn y gweithle.

Mae deall data gweithlu o ran hil ac ethnigrwydd hefyd yn rhan o'n hymrwymiad dan y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

# Crynodeb o Weithgareddau Swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer Cam 2, Blwyddyn 3: 2022/23

## Gweithgareddau Cyffredinol

- Penderfynu sut bydd adolygiad llywodraethu Swyddfa'r Comisiynydd yn ei gwneud yn haws i weld ac adrodd ar ein gwaith mewn cysylltiad â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o dan amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cynnal ymarfer asesu strategol i ddeall yn well beth yw effaith gwaith gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan nodi unrhyw gamau gweithredu pellach gofynnol.
- Cynnal dadansoddiad strategol o gynlluniau'n seiliedig ar gynllun gweithredu hil Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ac adroddiad / cynllun Cymdeithas Swyddogion Duon yr Heddlu ac unrhyw gynlluniau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol cysylltiedig eraill.

### Amcan Cydraddoldeb 1 – Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed

- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y gymuned yn ymwybodol o'r Safle Cyflwyno Tystiolaeth o Bell newydd ac annog dioddefwyr a thystion i'w ddefnyddio.
- Gweithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i wella gwaith monitro troseddau casineb a phrosesau gwella gwasanaeth.
- Cyflwyno prosesau monitro cydymffurfiaeth â'r Cod Dioddefwyr ledled Cymru.
- Datblygu mwy o waith yn lleol i ddeall a rhoi sylw i fregusrwydd a/neu anghenion lluosog a chymhleth pobl sy'n troseddu.

### Amcan Cydraddoldeb 2 - Cyfreithlondeb a Thegwch

- Cefnogi gwaith i gyflawni canlyniadau sy'n cyd-fynd â gwaith anghydaddoldeb cyfiawnder troseddol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.
- Adolygu canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd gan y Grŵp Craffu Ieuencid a defnyddio'r rhain i lywio'r broses yn yr ail flwyddyn.
- Canfod cyfleoedd i wella gwaith monitro amrywiaeth ym mhrosesau adolygu cwynion Swyddfa'r Comisiynydd.
- Sicrhau bod y Panel Craffu ar Gyfreithlondeb yn darparu gwaith monitro a chanlyniadau dysgu effeithiol mewn perthynas â'r prif faterion.

### Amcan Cydraddoldeb 3 - Mynediad, Ymgysylltu a Chydlyniant

- Datblygu gwaith cofnodi data cydraddoldeb a'i gorffori mewn dulliau monitro perfformiad.
- Sicrhau bod canlyniadau'r adolygiad o lywodraethu'r Ystâd yn cyfrannu at well gwaith adrodd a phenderfyniadau tryloyw.
- Gweithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i godi ymwybyddiaeth ac ymgorffori'r Strategaeth Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn newydd.
- Gweithio gyda phartneriaid i ymgorffori'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol mewn plismona yng Nghymru.

### Amcan Cydraddoldeb 4 – Creu Gweithlu Cynhwysol a Hyrwyddo Tegwch

- Cynnal a, lle bynnag y bo modd, gwella cydymffurfiaeth cyflogwyr gyda'r gwahanol gynlluniau presennol.
- Canfod cyfleoedd i ddatblygu dysgu a datblygu yn y maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i gefnogi ymwybyddiaeth sefydliadol a chymhwysedd diwylliannol.
- Cefnogi Heddlu Gwent i gyflawni amcanion amrywiaeth yn y gweithlu trydedd flwyddyn Ymgyrch Uplift.
- Gweithio gyda Heddlu Gwent i sicrhau bod rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant effeithiol a chynaliadwy yn cael ei chynllunio a'i darparu i'r holl swyddogion a staff.

## Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, cysylltwch â:

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd  
Pencadlys yr Heddlu  
Ffordd Parc Llantarnam  
Llantarnam  
Cwmbrân  
Torfaen  
NP44 3FW

Ffôn: 01633 642200  
E-bostiwch:  
[Commissioner@gwent.pnn.police.uk](mailto:Commissioner@gwent.pnn.police.uk)

[www.gwent.pcc.police.uk](http://www.gwent.pcc.police.uk)

Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Heddlu Gwent  
Pencadlys yr Heddlu  
Ffordd Parc Llantarnam  
Llantarnam  
Cwmbrân  
Torfaen  
NP44 3FW

Ffôn: 01633 838111  
E-bostiwch:  
[Diversityandinclusion@gwent.pnn.police.uk](mailto:Diversityandinclusion@gwent.pnn.police.uk)

[www.gwent.police.uk](http://www.gwent.police.uk)